OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 2829

# Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011

**Cymhwyso'r darpariaethau prynu gorfodol i adran 38 o Ddeddf 2010**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), mae adran 154 o Ddeddf 1991(**1**) yn gymwys at ddibenion adran 38 o Ddeddf 2010 fel petai'r swyddogaethau y cyfeirir atynt yn adran 154(1) o Ddeddf 1991 yn cynnwys swyddogaethau o dan adran 38 o Ddeddf 2010.

(2) Mae adran 157 o Ddeddf 1991(**2**) yn gymwys at ddibenion adran 38 o Ddeddf 2010 fel petai'r canlynol wedi eu gwneud—

(a) bod adran 157(2)(b) wedi ei hepgor;

(b) bod y cyfeiriad yn adran 157(6)(a) at orchymyn o dan adran 168 wedi ei hepgor; a

(c) bod adran 157(6)(c) i (e) wedi ei hepgor.

(3) Ni chaiff awdurdodiad ei roi i Asiantaeth yr Amgylchedd o dan adran 154 o Ddeddf 1991, fel y'i cymhwysir gan baragraff (1), ond at y dibenion o alluogi'r Deyrnas Unedig i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y canlynol—

(a) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd mewn perthynas ag unrhyw gamau a mesurau o dan Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb honno neu bolisïau o dan Erthygl 10 o'r Gyfarwyddeb honno;

(b) y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn perthynas ag unrhyw amcanion amgylcheddol; neu

(c) y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt mewn perthynas ag unrhyw gamau a mesurau o dan Erthyglau 2, 3 neu 4 o'r Gyfarwyddeb honno.

(4) Yn yr erthygl hon—

(a) mae i "amcanion amgylcheddol" yr un ystyr ag "environmental objectives" yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;

(b) ystyr "y Gyfarwyddeb Cynefinoedd" ("*the Habitats Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt(**3**);

(**1**) Mae adran 154 wedi ei diwygio gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), adran 120 ac Atodlen 22, paragraffau 128 a 157. Rhoddwyd y swyddogaethau i'r Gweinidogion, sydd wedi eu diffinio yn adran 222(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 fel yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau hynny, bellach, yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) Mae adran 157 wedi ei diwygio gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, adran 120 ac Atodlen 22, paragraffau 128 a 159. Rhoddwyd y swyddogaethau i'r Gweinidogion, sydd wedi eu diffinio yn adran 222(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 fel yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau hynny, bellach, yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) OJ Rhif L 206, 22.7.1992, t.7, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/105/EC (OJ Rhif L 363, 20.12.2006, t.368).

(c) ystyr "y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr" ("*the Water Framework Directive*") yw Cyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu ym maes polisi dŵr(**4**); a

(ch) ystyr "y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt" ("*the Wild Birds Directive*") yw Cyfarwyddeb 2009/147/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gadwraeth adar gwyllt(**5**).

(**4**) OJ Rhif L 327, 22.12.2000, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2009/31/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar storio daearegol carbon deuocsid (OJ Rhif L 140, 5.6.2009, t.114).

(**5**) OJ Rhif L 20, 26.1.2010, t.7.